
Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr ieuentid y mae eu gwaith yn cynnwys annog pobl ifanc i fyfyrion ar eu dysgu ac i gymhwyso hyn mewn meysydd eraill o'u bywydau, gan bennu nodau ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol. Gall ddigwydd gydag unigolyn neu mewn grŵp.

Mae dysgu yn y safon hon yn cynnwys dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol yn ogystal â dysgu o brofiad, cyfathrebu a thrwy drafodaeth.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer pob ymarferydd gwaith ieuentid.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynorthwyo pobl ifanc i edrych ar fanteision dysgu parhaus
2. creu cyfleoedd i bobl ifanc fyfyrion ar eu dysgu a'u profiadau mewn bwyd
3. cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu strategaethau i ymdopi â sefyllfaoedd heriol mewn perthynas â'u taith ddysgu
4. cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu'r gallu i fod yn gymryd yr awenau yn eu sesiynau adolygu eu hunain
5. cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu nodau datblygu clir a chyraeddadwy, personol ac fel grŵp
6. cynorthwyo pobl ifanc i ymgymryd â gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu harddull dysgu i gyflawni eu nodau
7. cyfeirio at ffynonellau cymorth a fydd yn helpu pobl ifanc i gynnal ac adolygu eu dysgu a'u datblygiad
8. bodloni'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. gweithgareddau a dulliau ar gyfer esbonio a hyrwyddo manteision dysgu parhaus, a ffynonellau cymorth cysylltiedig i bobl ifanc
2. pwysigrwydd annog pobl ifanc i fyfyrion ar eu profiadau eu hunain ac ystyried beth maent wedi'i ddysgu eu hunain oddi wrthynt
3. technegau i greu amgylchedd lle mae'n ddiogel cyfathrebu'n agored ac yn onest am brofiadau, dysgu a dyheadau
4. technegau ar gyfer hwyluso a monitro dynameg grŵp, gan alluogi pobl ifanc i ganolbwyntio ar faterion sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys y rhai sy'n heriol yn eu barn nhw.
5. sut i alluogi pobl ifanc i berchnogi'r broses ddysgu
6. sut i weithio gyda phobl ifanc i nodi nodau sydd o fewn cyrraedd, a mecanweithiau ar gyfer cofnodi datblygiad pobl ifanc
7. dulliau dysgu a damcaniaethau eraill sy'n berthnasol i gynllunio datblygiad
8. pwysigrwydd rhoi a derbyn adborth yn effeithiol a'r ffyrdd o wneud hyn gyda phobl ifanc
9. gweithgareddau a thechnegau y gellir eu defnyddio i fonitro datblygiad personol a grŵp a myfyrio arno
10. y ffynonellau cymorth i bobl ifanc wrth iddynt roi eu cynlluniau datblygu ar waith a delio â materion sydd y tu hwnt i'ch cylch gwaith
11. sut y gellid cymhwyso dysgu o brofiadau gwaith ieuenctid mewn meysydd eraill o fywyd
12. sut a phryd i ddefnyddio achrediad i wella dysgu pobl ifanc
13. mathau o ddysgu achrededig
14. gwerth anffurfiol, heb fod yn ffurfiol, ffurfiol, dysgu o brofiad, cyfathrebu a sut y gall y rhain wella datblygiad pobl ifanc
15. y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

CLD YW05

Galluogi pobl ifanc i nodi, myfyrio a defnyddio eu dysgu i wella eu datblygiad yn y dyfodol



Datblygwyd gan	CLD Standards Council Scotland
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	29 Maw 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	28 Maw 2022
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CLD Standards Council
RCU gwreiddiol	LSI YW05
Galwedigaethau perthnasol	Gweithiwr Ieuenctid
Cyfes/Set	Gwaith Ieuenctid
Geiriau Allweddol	Ieuenctid; pobl ifanc; datblygiad; nodau; dysgu; manteision; myfyrio; profiadau; cynorthwyo; unigolion; grwpiau
